



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2021 Rhif 1212 (Cy. 303)**

**2021 No. 1212 (W. 303)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Cyfyngiadau,  
Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a  
Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i  
Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau  
Amrywiol) 2021

The Health Protection  
(Coronavirus, Restrictions,  
International Travel, Notification  
and Public Health Information to  
Travellers) (Wales) (Miscellaneous  
Amendments) Regulations 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1546 (Cy. 144)) ("y Rheoliadau Hysbysu"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595 (Cy. 136)) ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y Rheoliadau Cyfyngiadau").

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofynion i archebu a chymryd profion am y coronafeirws yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Mae'r

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) ("the International Travel Regulations"), the Health Protection (Notification) (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/1546 (W. 144)) ("the Notification Regulations"), the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 (S.I. 2020/595 (W. 136)) ("the Public Health Information Regulations") and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609 (W. 335)) ("the Restrictions Regulations").

Part 2 of these Regulations amends the International Travel Regulations.

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include requirements for booking and undertaking coronavirus tests in accordance with those Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. The International

Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn gwneud darpariaethau penodol ar gyfer “teithwyr rheoliad 2A”; gan gynnwys unigolion sydd wedi eu brechu’n llawn mewn gwledydd a thiriogaethau rhagnodedig.

Mae rheoliad 3 o’r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan estyn y gydnabyddiaeth o frechiadau i ragor o wledydd a thiriogaethau.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 6AB (gofyniad i archebu a chymryd profion) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn galluogi teithwyr rheoliad 2A i ddefnyddio profion dyfais llif unffordd (“LFD”) at ddibenion y Rheoliadau.

Mae rheoliad 6 yn cynnwys darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd prawf adwaith cadwynol polymerasau (“PCR”) cadarnhau pan fo’n cael canlyniad prawf positif ar brawf LFD, yn ogystal â chynnwys darpariaeth ar ofynion ynysu yn dilyn canlyniadau positif.

Mae rheoliad 8 yn cyflwyno trosedd am fethu â chymryd prawf PCR cadarnhau.

Mae rheoliadau 5, 7 i 9, ac 11 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chyflwyno profion LFD.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Atodlen 1 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddileu’r gofyniad i deithwyr restru eu rhifau sedd ar Ffurflenni Lleoli Teithwyr.

Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy’n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd, yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy’n gymwys i bersonau sy’n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 12 o’r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A er mwyn dileu amrywiol wledydd o’r rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae rheoliad 12E yn gymwys iddynt.

Mae Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Hysbysu, o ganlyniad i gyflwyno profion LFD yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i sicrhau yr hysbysir Iechyd Cyhoeddus Cymru am ganlyniadau profion.

Travel Regulations also make specific provisions for “regulation 2A travellers”; including individuals who have been fully vaccinated in prescribed countries and territories.

Regulation 3 of these Regulations amends regulation 2A (exemptions for vaccinated travellers and others) of the International Travel Regulations, extending the recognition of vaccinations to further countries and territories.

Regulation 4 amends regulation 6AB (requirement to book and undertake tests) of the International Travel Regulations so as to enable regulation 2A travellers to use lateral flow device (“LFD”) tests for the purposes of the Regulations.

Regulation 6 contains provision requiring a person to undertake a confirmatory polymerase chain reaction (“PCR”) test where they receive a positive test result on a LFD test, as well as containing provision on isolation requirements following positive results.

Regulation 8 introduces an offence for failing to undertake a confirmatory PCR test.

Regulations 5, 7 to 9, and 11 make further provision in relation to the introduction of LFD testing.

Regulation 10 amends Schedule 1 to the International Travel Regulations to remove the requirement for passengers to list their seat numbers on Passenger Locator Forms (“PLF”).

Non-exempt persons are prohibited from entering Wales where they have been in a country or territory listed in Schedule 3A (countries and territories subject to additional measures) to the International Travel Regulations within the last 10 days of arrival, pursuant to regulation 12E (additional measures applicable to persons travelling from a country or territory listed in Schedule 3A) of the International Travel Regulations. Regulation 12 of these Regulations amends Schedule 3A to remove various countries from the list of countries or territories to which regulation 12E applies.

Part 3 of these Regulations amends the Notification Regulations, in consequence of the introduction of LFD testing in the International Travel Regulations to ensure Public Health Wales are notified of test results.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn gosod gofynion ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig i deithwyr. Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, o ganlyniad i'r diwygiadau o ran Ffurflenni Lleoli Teithwyr a wneir i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rheoliad 10.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 16A(12) o'r Rheoliadau Cyfyngiadau, gan estyn ymhellach y rhestr o wledydd a thiriogaethau yn y paragraff hwnnw fel bod tystiolaeth o frechu yn y gwledydd hynny â brechlynnau sydd wedi eu hawdurdodi yn y Deyrnas Unedig hefyd yn dderbyniol at ddibenion yr hyn a adwaenir yn gyffredin fel y pàs COVID. Mae angen y diwygiad er mwyn cynnal cysondeb â rheoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Public Health Information Regulations impose requirements on operators of international passenger services coming from outside the common travel area to an airport, heliport or seaport in Wales to provide passengers with specified public health information. Part 4 of these Regulations amends the Public Health Information Regulations, in consequence of the PLF amendments made to the International Travel Regulations at regulation 10.

Part 5 of these Regulations amends regulation 16A(12) of the Restrictions Regulations, further extending the list of countries and territories in that paragraph so that evidence of vaccination in those countries with vaccines authorised in the United Kingdom is also acceptable for the purposes of what is commonly known as the COVID-pass. The amendment is required to maintain consistency with regulation 2A of the International Travel Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2021 Rhif 1212 (Cy. 303)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Cyfyngiadau,  
Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a  
Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i  
Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau  
Amrywiol) 2021

*Gwnaed*      *am 4.25 p.m. ar 29 Hydref 2021*

*Gosodwyd*      *gerbron*      *Senedd*  
*Cymru*      *am 6.30 p.m. ar 29 Hydref 2021*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wneir gan reoliad 18 o'r Rheoliadau hyn, yn unol ag adran 45Q(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r offeryn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

**2021 No. 1212 (W. 303)**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

The Health Protection  
(Coronavirus, Restrictions,  
International Travel, Notification  
and Public Health Information to  
Travellers) (Wales) (Miscellaneous  
Amendments) Regulations 2021

*Made*      *at 4.25 p.m. on 29 October 2021*

*Laid*      *before*      *Senedd*  
*Cymru*      *at 6.30 p.m. on 29 October 2021*

*Coming into force in accordance with  
regulation 1*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B, 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

The Welsh Ministers consider that the restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

In relation to the provision made by regulation 18 of these Regulations, in accordance with section 45Q(3) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984, the Welsh Ministers are of the opinion that the instrument does not contain any provision made by virtue of section 45C(3)(c) of the Act which imposes or enables the imposition of a special restriction or requirement,

---

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

or any other restriction or requirement which has or would have a significant effect on a person's rights.

## RHAN 1

### Cyffredinol

## PART 1

### General

#### Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliadau 3, 12 a 18, i rym am 4.00 a.m. ar 31 Hydref 2021.

(3) Daw rheoliadau 3, 12 a 18 i rym am 4.00 a.m. ar 1 Tachwedd 2021.

#### Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, Restrictions, International Travel, Notification and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2021.

(2) These Regulations, except for regulations 3, 12 and 18, come into force at 4.00 a.m. on 31 October 2021.

(3) Regulations 3, 12 and 18 come into force at 4.00 a.m. on 1 November 2021.

## RHAN 2

### Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

#### Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

2. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

## PART 2

### Amendments to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020

#### Amendments to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020

2. The Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

---

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193), O.S. 2021/863 (Cy. 202), O.S. 2021/867 (Cy. 203), O.S. 2021/915 (Cy. 208), O.S. 2021/926 (Cy. 211), O.S. 2021/967 (Cy. 227), O.S. 2021/1063 (Cy. 250), O.S. 2021/1109 (Cy. 265) ac O.S. 2021/1126 (Cy. 273).

---

(1) S.I. 2020/574 (W. 132), amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/942, S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1329 (W. 295), S.I. 2020/1362 (W. 301), S.I. 2020/1477 (W. 316), S.I. 2020/1521 (W. 325), S.I. 2020/1602 (W. 332), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/24 (W. 8), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/48 (W. 11), S.I. 2021/50 (W. 12), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/72 (W. 18), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/154 (W. 38), S.I. 2021/305 (W. 78), S.I. 2021/361 (W. 110), S.I. 2021/454 (W. 144), S.I. 2021/500 (W. 149), S.I. 2021/568 (W. 156), S.I. 2021/584 (W. 161), S.I. 2021/646 (W. 166), S.I. 2021/669 (W. 170), S.I. 2021/765 (W. 187), S.I. 2021/826 (W. 193), S.I. 2021/863 (W. 202), S.I. 2021/867 (W. 203), S.I. 2021/915 (W. 208), S.I. 2021/926 (W. 211), S.I. 2021/967 (W. 227), S.I. 2021/1063 (W. 250), S.I. 2021/1109 (W. 265) and S.I. 2021/1126 (W. 273).

## Diwygiadau i reoliad 2A

3.—(1) Mae rheoliad 12 (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (10) yn y diffiniad o “brechlyn awdurdodedig”, yn lle paragraff (c) rhodder—

“(c) mewn perthynas â dosau a geir mewn unrhyw wlad neu diriogaeth arall (gan gynnwys gwlad berthnasol a restrir ym mharagraff (12)), a fyddai’n awdurdodedig fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (a)(i) neu (ii) pe bai’r dosau wedi eu cael yn y Deyrnas Unedig;”.

(3) Ym mharagraff (12) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Angola”  
“Anguilla”  
“Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus”  
“Yr Ariannin”  
“Armenia”  
“Azerbaijan”  
“Belize”  
“Bermuda”  
“Botswana”  
“Cambodia”  
“Costa Rica”  
“De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De”  
“Djibouti”  
“Eswatini”  
“Gibraltar”  
“Guernsey”  
“Guyana”  
“Honduras”  
“Jersey”  
“Lesotho”  
“Libanus”  
“Madagascar”  
“Mauritius”  
“Mongolia”  
“Montserrat”  
“Nepal”  
“Panama”  
“Periw”  
“Rwanda”

## Amendments to regulation 2A

3.—(1) Regulation 12 (exemptions for vaccinated travellers and others) is amended as follows.

(2) In paragraph (10) in the definition of “authorised vaccine”, for paragraph (c) substitute—

“(c) in relation to doses received in any other country or territory (including a relevant country listed in paragraph (12)), which would be authorised as provided for in paragraph (a)(i) or (ii) if the doses were received in the United Kingdom;”.

(3) In paragraph (12), at the appropriate places insert—

“Angola”  
“Anguilla”  
“Argentina”  
“Armenia”  
“Azerbaijan”  
“Belize”  
“Bermuda”  
“Botswana”  
“British Antarctic Territory”  
“British Indian Ocean Territory”  
“British Virgin Islands”  
“Cambodia”  
“Cayman Islands”  
“Costa Rica”  
“Djibouti”  
“Eswatini”  
“Falkland Islands”  
“Gibraltar”  
“Guernsey”  
“Guyana”  
“Honduras”  
“Isle of Man”  
“Jersey”  
“Lebanon”  
“Lesotho”  
“Madagascar”  
“Mauritius”  
“Mongolia”  
“Montserrat”  
“Nepal”

“Seychelles”  
 “Sierra Leone”  
 “Sri Lanka”  
 “St Helena, Ascension a Tristan da Cunha”  
 “Suriname”  
 “Tanzania”  
 “Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig”  
 “Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India”  
 “Tiriogaethau Meddianedig Palesteina”  
 “Trinidad a Tobago”  
 “Tunisia”  
 “Uganda”  
 “Uruguay”  
 “Ynys Manaw”  
 “Ynysoedd Cayman”  
 “Ynysoedd Falkland”  
 “Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno”  
 “Ynysoedd Prydeinig y Wryf”  
 “Ynysoedd Turks a Caicos”.

“Occupied Palestinian Territories”  
 “Panama”  
 “Pitcairn, Henderson, Ducie and Oeno Islands”  
 “Saint Helena, Ascension and Tristan da Cunha”  
 “South Georgia and the South Sandwich Islands”  
 “The Sovereign Base Areas of Akrotiri and Dhekelia in the Island of Cyprus”  
 “Turks and Caicos Islands”  
 “Peru”  
 “Rwanda”  
 “Seychelles”  
 “Sierra Leone”  
 “Sri Lanka”  
 “Suriname”  
 “Tanzania”  
 “Trinidad and Tobago”  
 “Tunisia”  
 “Uganda”  
 “Uruguay”.

#### Diwygiadau i reoliad 6AB

4.—(1) Mae rheoliad 6AB (gofyniad i archebu a chymryd profion) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (2)(a) rhodder—

“(a) “prawf diwrnod 2”—

- (i) mewn cysylltiad â pherson nad yw rheoliad 2A yn gymwys iddo, yw prawf sy’n cydymffurfio â pharagraff 1 o Atodlen 1C sy’n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o’r Atodlen honno;
- (ii) mewn cysylltiad â theithiwr rheoliad 2A, yw—
  - (aa) prawf a ddisgrifir yn is-baragraff (i), neu
  - (bb) prawf sy’n cydymffurfio â pharagraff 1ZB o Atodlen 1C sy’n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o’r Atodlen honno;”.

#### Amendments to regulation 6AB

4.—(1) Regulation 6AB (requirement to book and undertake tests) is amended as follows.

(2) For paragraph (2)(a) substitute—

“(a) a “day 2 test”—

- (i) in respect of a person to whom regulation 2A does not apply, is a test complying with paragraph 1 of Schedule 1C which is undertaken in the circumstances described in paragraph 1A of that Schedule;
- (ii) in respect of a regulation 2A traveller, means—
  - (aa) a test described in sub-paragraph (i), or
  - (bb) a test complying with paragraph 1ZB of Schedule 1C which is undertaken in the circumstances described in paragraph 1A of that Schedule;”.

## Diwygiadau i reoliad 6DB

5.—(1) Mae rheoliad 6DB (gofyniad i ynysu o fethu â chymryd profion: teithwyr o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr rheoliad 2A) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd, hepgorer “o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr”.

(3) Yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i deithiwr rheoliad 2A (“P”) y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo.”

(4) Ym mharagraff (5)(a), yn lle “ym mharagraff 1 o Atodlen 1C” rhodder “yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)”.

## Amnewid rheoliad 6E

6. Yn lle rheoliad 6E (goblygiadau canlyniad prawf positif) rhodder—

### “Goblygiadau canlyniad prawf positif

6E.—(1) Pan fo prawf a gymerir gan berson (“P”) yn unol â rheoliad 6AB yn positif ac—

- (a) bo P yn berson y mae rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, mae paragraffau (2) a (7) yn gymwys;
- (b) bo P yn deithiwr rheoliad 2A—
  - (i) pan fo’r prawf yn brawf PCR diwrnod 2, mae paragraffau (3) a (7) yn gymwys;
  - (ii) pan fo’r prawf yn brawf LFD diwrnod 2, mae paragraffau (4), (5) a (7) yn gymwys.

(2) Diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod y cymerodd P y prawf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).

(3) Mae P i’w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â’r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod y cymerodd P y prawf.

(4) Rhaid i P, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, gymryd prawf cadarnhau a ddarperir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwn.

## Amendments to regulation 6DB

5.—(1) Regulation 6DB (requirement to isolate on failure to take tests: travellers from exempt countries and territories and regulation 2A travellers) is amended as follows.

(2) In the heading, omit “travellers from exempt countries and territories and”.

(3) For sub-paragraph (1) substitute—

“(1) This regulation applies to a regulation 2A traveller (“P”) to whom regulation 6AB(1) applies.”

(4) In paragraph (5)(a), for “paragraph 1 of Schedule 1C” substitute “regulation 6AB(2)(a)(ii)”.

## Substitution of regulation 6E

6. For regulation 6E (consequences of positive test result) substitute—

### “Consequences of positive test result

6E.—(1) Where a test taken by a person (“P”) in accordance with regulation 6AB is positive and—

- (a) P is a person to whom regulation 7(1) or 8(1) applies, paragraphs (2) and (7) apply;
- (b) P is a regulation 2A traveller—
  - (i) where the test is a day 2 PCR test, paragraphs (3) and (7) apply;
  - (ii) where the test is a day 2 LFD test, paragraphs (4), (5) and (7) apply.

(2) The last day of P’s isolation under regulation 7 or 8 is the last day of the period of 10 days beginning with the day on which P took the test (and regulation 12 does not apply for the purposes of determining the last day of P’s isolation).

(3) P is to be treated as if the requirements of regulation 7 applied and P must enter into and remain in isolation in accordance with that regulation until the last day of the period of 10 days beginning with the day on which P took the test.

(4) P must as soon as reasonably practicable undertake a confirmatory test provided by the Welsh Ministers for the purposes of this paragraph.



(5) Mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan cynharaf o'r canlynol—

- (a) diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf LFD diwrnod 2;
- (b) yr adeg yr hysbysir P bod canlyniad y prawf cadarnhau a gymerwyd yn unol â pharagraff (4) yn negyddol.

(6) Yn y rheoliad hwn, bernir bod person yn cael hysbysiad o ganlyniad mewn perthynas â phrawf LFD diwrnod 2 pan fydd y person yn penderfynu ar y canlyniad yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio gweithgynhyrchedd y prawf.

(7) Nid yw rheoliad 10(3) (gofyniad i ynysu yn peidio â bod yn gymwys i P pan fydd P yn gadael Cymru) o'r Rheoliadau hyn ac, yn ddarostyngedig i reoliad 6I, rheoliad 6 neu 7, fel y bo'n briodol, o'r Rheoliadau Cyfyngiadau Coronafeirws yn gymwys mewn perthynas â P.

(8) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “prawf LFD diwrnod 2” yw prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb);

ystyr “prawf PCR diwrnod 2” yw prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(aa).”

### Diwygiadau i reoliad 6HB

7.—(1) Mae rheoliad 6HB (goblygiadau cael canlyniad prawf amhendant: teithwyr o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr rheoliad 2A) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd, hepgorer “o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr”.

(3) Yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i deithiwr rheoliad 2A (“P”) y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo.”

(4) Ym mharagraff (5)(a), yn lle “ym mharagraff 1 o Atodlen 1C” rhodder “yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)”.

### Diwygiadau i reoliad 14

8.—(1) Mae rheoliad 14 (troseddau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (1)(h) mewnosoder—

“(ha) 6E(4);”.

(3) Ym mharagraff (1D), ar ôl “6AB” mewnosoder “neu 6E(4)”.

(5) P is to be treated as if the requirements of regulation 7 applied and P must enter into and remain in isolation in accordance with that regulation until the earlier of—

- (a) the last day of the period of 10 days beginning with the day on which P took the day 2 LFD test;
- (b) the time that P is notified that the result of the confirmatory test undertaken in accordance with paragraph (4) is negative.

(6) In this regulation, a person is deemed to receive notification of a result in relation to a day 2 LFD test when the person determines the result in accordance with the test manufacturer's instructions for use.

(7) Regulation 10(3) (isolation requirement ceasing to apply to P when P leaves Wales) of these Regulations and, subject to regulation 6I, regulation 6 or 7, as appropriate, of the Coronavirus Restrictions Regulations do not apply in relation to P.

(8) In this regulation—

“day 2 LFD test” means a test within the meaning of regulation 6AB(2)(a)(ii)(bb);

“day 2 PCR test” means a test within the meaning of regulation 6AB(2)(a)(ii)(aa).”

### Amendments to regulation 6HB

7.—(1) Regulation 6HB (consequences of receiving inconclusive test result: travellers from exempt countries and territories and regulation 2A travellers) is amended as follows.

(2) In the heading, omit “travellers from exempt countries and territories and”.

(3) For sub-paragraph (1) substitute—

“(1) This regulation applies to a regulation 2A traveller (“P”) to whom regulation 6AB(1) applies.”

(4) In paragraph (5)(a), for “paragraph 1 of Schedule 1C” substitute “regulation 6AB(2)(a)(ii)”.

### Amendments to regulation 14

8.—(1) Regulation 14 (offences) is amended as follows.

(2) After paragraph (1)(h) insert—

“(ha) 6E(4);”.

(3) In paragraph (1D), after “6AB” insert “or 6E(4)”.

## Diwygiadau i reoliad 16

9. Yn rheoliad 16(6AB) (hysbysiadau cosb benodedig)—

- (a) yn y geiriau agoriadol, ar ôl “rheoliad 14(1)(h)” mewnosoder “neu (ha)”;
- (b) yn is-baragraff (b), ar ôl “6AB(7)” mewnosoder “neu 6E(4)”;
- (c) yn is-baragraff (c), ar ôl “6AB(7)” mewnosoder “neu 6E(4)”.

## Diwygiadau i Atodlen 1

10. Ym mharagraff 2 o Atodlen 1 (gwybodaeth am deithiwr), hepgorer is-baragraffau (e) a (k)(iv).

## Diwygiadau i Atodlen 1C

11.—(1) Mae Atodlen 1C (profi mandadol ar ôl cyrraedd Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff 1ZA mewnosoder—

### “Profion diwrnod 2: gofynion cyffredinol ar gyfer profion dyfais llif unffordd

1ZB.—(1) Mae prawf diwrnod 2 yn cydymffurfio â'r paragraff hwn pan fo'r prawf yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) a phan fo—

- (a) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf cyhoeddus; neu
- (b) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf preifat pan fo'r darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â pharagraff 1ZC.

(2) Mae prawf yn cydymffurfio â'r is-baragraff hwn—

- (a) pan fo'n brawf ar gyfer canfod y coronafeirws sy'n defnyddio un neu ragor o'r canlynol—
  - (i) swabio'r trwyn yn y cogwrn canol neu ym mlaen y ffroenau;
  - (ii) swabio'r tonsiliau;
  - (iii) poer;
- (b) pan fo modd ei adnabod yn unigryw;
- (c) pan fo wedi ei ddarparu yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio gweithgynhyrhydd y prawf, gan gynnwys, yn benodol, cyfarwyddiadau o ran y defnydd targed, y defnyddiwr targed a gosodiadau'r defnydd targed; a

## Amendments to regulation 16

9. In regulation 16(6AB) (fixed penalty notices)—

- (a) in the opening words, after “regulation 14(1)(h)” insert “or (ha)”;
- (b) in sub-paragraph (b), after “6AB(7)” insert “or 6E(4)”;
- (c) in sub-paragraph (c), after “6AB(7)” insert “or 6E(4)”.

## Amendments to Schedule 1

10. In paragraph 2 of Schedule 1 (passenger information), omit sub-paragraphs (e) and (k)(iv).

## Amendments to Schedule 1C

11.—(1) Schedule 1C (mandatory testing after arrival in Wales) is amended as follows.

(2) After paragraph 1ZA insert—

### “Day 2 tests: general requirements for lateral flow device tests

1ZB.—(1) A day 2 test complies with this paragraph where the test complies with sub-paragraph (2) and—

- (a) it is a test provided by a public test provider; or
- (b) it is a test provided by a private test provider where the private test provider complies with paragraph 1ZC.

(2) A test complies with this sub-paragraph where—

- (a) it is a test for the detection of coronavirus which uses one or more of—
  - (i) mid-turbinate or anterior nares nasal swabbing;
  - (ii) tonsillar swabbing;
  - (iii) saliva;
- (b) it is uniquely identifiable;
- (c) it is provided in accordance with the test manufacturer's instructions for use including, in particular, instructions as to the target use, target user and target use settings; and

- (d) pan fo unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf yn gallu cael ei defnyddio yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002(1), ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 39(2) o'r Rheoliadau hynny yn unig.

**Profion diwrnod 2: gofynion darparwr prawf preifat ar gyfer profion dyfais llif unffordd**

**1ZC.**—(1) Mae darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â'r paragraff hwn—

- (a) pan fo'n cydymffurfio â gofynion paragraff 1ZA(1)(a) i (e) ac (h);
- (b) pan fo wedi gwneud datganiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer profion a ddarperir gan y sector preifat a gyhoeddwyd ar [gov.uk/guidance/day-2-lateral-flow-tests-for-international-arrivals-minimum-standards-for-providers](http://gov.uk/guidance/day-2-lateral-flow-tests-for-international-arrivals-minimum-standards-for-providers) ar 21 Hydref 2021 a bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn ystyried bod y darparwr yn bodloni'r safonau hynny;
- (c) pan fo'n parhau i fodloni'r safonau gofynnol y mae'r datganiad a grybwyllir ym mharagraff (b) yn ymwneud â hwy;
- (d) pan fo wedi darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol restr o'r holl sefydliadau y mae'n gweithio gyda hwy (boed drwy is-gontract neu fel arall) i gynnal y gwasanaeth profi, gan nodi natur y gwasanaeth y mae pob sefydliad yn ei ddarparu, ac wedi diweddarau'r rhestr honno fel y bo'n briodol;
- (e) pan fo'n cael yr wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 6AB(5), ac os yw'n gweinyddu'r prawf i P, ei fod yn gwneud hynny heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru;
- (f) pan fo ganddo system ar waith i wrthod canlyniadau gan ddyfeisiau a ddefnyddiwyd yn flaenorol;

- (d) any device used for the purposes of the test can be put into service in accordance with Part 4 of the Medical Devices Regulations 2002(1), other than solely by virtue of regulation 39(2) of those Regulations.

**Day 2 tests: private test provider requirements for lateral flow device tests**

**1ZC.**—(1) A private test provider complies with this paragraph where—

- (a) they comply with the requirements of paragraph 1ZA(1)(a) to (e) and (h);
- (b) they have made a declaration to the Secretary of State that they meet the minimum standards for private sector-provided testing published at [gov.uk/guidance/day-2-lateral-flow-tests-for-international-arrivals-minimum-standards-for-providers](http://gov.uk/guidance/day-2-lateral-flow-tests-for-international-arrivals-minimum-standards-for-providers) on 21 October 2021 and the Secretary of State has confirmed in writing that it considers the provider meets those standards;
- (c) they continue to meet the minimum standards to which the declaration mentioned in paragraph (b) relates;
- (d) they have provided the Secretary of State with a list of all organisations that they work with (whether by sub-contract or otherwise) to carry out the testing service, indicating the nature of the service that each organisation is providing, and kept that list updated as appropriate;
- (e) they receive the information required by regulation 6AB(5), and if they administer the test to P, they do so no later than the end of the second day after the day on which P arrived in Wales;
- (f) they have in place a system in place to reject results from devices which have been previously used;

(g) pan fo, bob dydd, yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig—

(i) am nifer y profion y mae wedi eu gwerthu ar y diwrnod hwnnw, a

(ii) mewn perthynas â phob prawf a werthwyd ar y diwrnod hwnnw—

(aa) am y dyddiad y cyrhaeddodd y person y gwerthwyd y prawf mewn cysylltiad ag ef y Deyrnas Unedig,

(bb) a yw'n brawf adwaith cadwynol polymerasau neu'n brawf dyfais llif unffordd, ac

(cc) am y cyfeirnod prawf a roddwyd i P yn unol â rheoliad 6AB(6);

(iii) mewn perthynas â phob prawf y canslwyd ei bryniant ar y diwrnod hwnnw, yr wybodaeth a nodir yn is-baragraff (ii)(aa) i (cc);

(h) os yw'n trefnu gyda pherson arall ("X") i X gyflawni unrhyw elfen o'r un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd ar ei ran, pan fo'r darparwr prawf yn sicrhau bod X yn cydymffurfio â'r canlynol i'r graddau y maent yn berthnasol i gyflawni'r elfen honno—

(i) paragraff 1ZA(1)(b) i (e) ac (h) fel y'i cymhwysir gan baragraff (a) o'r is-baragraff hwn;

(ii) paragraff (c) i (g) o'r is-baragraff hwn;

(iii) paragraff 2D(2) a (4).

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(h), ystyr "un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd" yw gwasanaeth sy'n cwmpasu unrhyw un neu ragor o'r elfennau a ganlyn pan fônt yn rhan o'r gwasanaeth a gynigir gan y darparwr prawf—

(a) derbyn yr archeb gan y person sydd i'w brofi;

(b) darparu'r prawf;

(c) casglu a phrosesu'r prawf wedi iddo gael ei gymryd;

(d) dadansoddi'r prawf;

(e) gwirio canlyniad y prawf;

(f) darparu hysbysiad o ganlyniad y prawf.

(g) each day, they notify the Secretary of State in writing of—

(i) the number of tests they sold on that day, and

(ii) in relation to each test sold on that day—

(aa) the date of the arrival in the United Kingdom of the person in respect of whom the test was sold,

(bb) whether it is a polymerase chain reaction or lateral flow device, and

(cc) the test reference number given to P in accordance with regulation 6AB(6);

(iii) in relation to each test the purchase of which was cancelled on that day, the information set out in sub-paragraph (ii)(aa) to (cc);

(h) if they arrange with another person ("X") for X to carry out any element of the single end-to-end testing service on their behalf, the test provider ensures that X complies with the following so far as relevant to the carrying out of that element—

(i) paragraph 1ZA(1)(b) to (e) and (h) as applied by paragraph (a) of this sub-paragraph;

(ii) paragraph (c) to (g) of this sub-paragraph;

(iii) paragraph 2D(2) and (4).

(2) For the purposes of sub-paragraph (1)(h), "single end-to-end testing service" means a service which comprises any of the following elements where they are part of the service offered by the test provider—

(a) accepting the booking from the person to be tested;

(b) providing the test;

(c) collecting and processing the test once it has been undertaken;

(d) analysing the test;

(e) verifying the result of the test;

(f) providing notification of the test result.

(3) Yn lle paragraff (1A) rhodder—

“1A. Yr amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliad 6AB(2)(a) yw—

- (a) bod P yn cymryd prawf diwrnod 2 heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru, a
- (b) mewn perthynas â phrawf a ddisgrifir yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) nad yw wedi ei weinyddu gan ddarparwr prawf, fod P yn darparu i'r darparwr prawf yr wybodaeth a ganlyn o fewn 15 munud i amser darllen y prawf fel y'i pennir gan gyfarwyddiadau defnyddio y gweithgynhyrhydd—
  - (i) tystiolaeth ffotograffig sy'n dangos yn glir—
    - (aa) y ddyfais brofi yn y fath fodd fel y gellir ei hadnabod fel un sydd wedi ei darparu gan y darparwr prawf,
    - (bb) cyfeirnod y prawf a roddwyd yn unol â rheoliad 6AB(6), ac
    - (cc) canlyniad y prawf, a
  - (ii) y cyfeiriad y gall P gael prawf cadarnhau ynddo yn unol â rheoliad 6E(4).”

(4) Ar ôl paragraff 2C mewnosoder—

**“Hysbysu am ganlyniadau profion: profion dyfais llif unffordd**

2D.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparwr prawf preifat sy'n gweinyddu neu'n darparu prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) i P o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A.

(2) Rhaid i'r darparwr prawf preifat, o fewn 24 awr i'r digwyddiad perthnasol—

- (a) hysbysu P a, phan fo'n gymwys, unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy e-bost, llythyr neu neges destun, am ganlyniad prawf P, neu
- (b) peri bod canlyniad prawf P ar gael i P a, phan fo'n gymwys, i unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy borthol diogel ar y we,

yn unol ag is-baragraff (4).

(3) For paragraph (1A) substitute—

“1A. The circumstances mentioned in regulation 6AB(2)(a) are—

- (a) that P undertake the day 2 test no later than the end of the second day after the day on which P arrived in Wales, and
- (b) in relation to a test described in regulation 6AB(2)(a)(ii)(bb) not administered by a test provider, that P provides the test provider with the following information within 15 minutes of the test's read time as determined by the manufacturer's instructions for use—
  - (i) photographic evidence clearly showing—
    - (aa) the test device in such a way that it is identifiable as having been provided by the test provider,
    - (bb) the test reference number given in accordance with regulation 6AB(6), and
    - (cc) the test result, and
  - (ii) the address at which P is able to receive a confirmatory test pursuant to regulation 6E(4).”

(4) After paragraph 2C insert—

**“Notification of test results: lateral flow device tests**

2D.—(1) This paragraph applies to a private test provider who administers or provides a test within the meaning of regulation 6AB(2)(a)(ii)(bb) to P in the circumstances described in paragraph 1A.

(2) The private test provider must, within 24 hours of the relevant event—

- (a) notify P and, where applicable, any person who arranges the test on P's behalf, by email, letter or text message, the result of P's test, or
- (b) make P's test result available to P and, where applicable, any person who arranges the test on P's behalf, via a secure web portal,

in accordance with sub-paragraph (4).

(3) Ym mharagraff (2), ystyr “digwyddiad perthnasol” yw—

- (a) pan weinyddodd y darparwr prawf y prawf, yr adeg y penderfynodd y darparwr prawf ar ganlyniadau'r prawf;
- (b) pan na weinyddodd y darparwr prawf y prawf, yr adeg y cafodd y darparwr prawf yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu gan baragraff 1A(b).

(4) Rhaid i'r hysbysiad am ganlyniad prawf P gynnwys enw, dyddiad geni, rhif pasbort, neu gyfeirnod dogfen deithio (fel y bo'n briodol) P, enw a manylion cyswllt y darparwr prawf a chyfeirnod prawf P, a rhaid ei gyfleu mewn modd sy'n hysbysu P a oedd y prawf yn negyddol, yn bositif, neu'n amhendant.”

(5) Ym mharagraff 3(d), ar ôl “ystyr “un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd””, mewnosoder “, ac eithrio ym mharagraff 1ZC(1)(h),”.

### Diwygiadau i Atodlen 3A

12. Yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) hepgorer—

- “Colombia”
- “Ecuador”
- “Gweriniaeth Dominica”
- “Haiti”
- “Panama”
- “Periw”
- “Venezuela”.

## RHAN 3

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu)  
(Cymru) 2010

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu)  
(Cymru) 2010**

13. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu)  
(Cymru) 2010(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(3) In paragraph (2), “relevant event” means—

- (a) where the test provider administered the test, the time at which the test provider determined the results of the test;
- (b) where the test provider did not administer the test, the time at which the test provider received the information required to be provided by paragraph 1A(b).

(4) The notification of P's test result must include P's name, date of birth, passport number, or travel document reference number (as appropriate), the name and contact details of the test provider and P's test reference number, and must be conveyed so as to inform P whether the test was negative, positive, or inconclusive.”

(5) In paragraph 3(d), after ““single end-to-end testing””, insert “, except in paragraph 1ZC(1)(h),”.

### Amendments to Schedule 3A

12. In Schedule 3A (countries and territories subject to additional measures) omit—

- “Colombia”
- “Dominican Republic”
- “Ecuador”
- “Haiti”
- “Panama”
- “Peru”
- “Venezuela”.

## PART 3

Amendment of the Health Protection  
(Notification) (Wales) Regulations 2010

**Amendment of the Health Protection (Notification)  
(Wales) Regulations 2010**

13. The Health Protection (Notification) (Wales)  
Regulations 2010(1) are amended as follows.

(1) O.S. 2010/1546 (Cy. 144), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/232 (Cy. 54) ac O.S. 2021/1063 (Cy. 250).

(1) S.I. 2010/1546 (W. 144), amended by S.I. 2020/232 (W. 54) and S.I. 2021/1063 (W. 250).

## Diwygiadau i reoliad 4A

**14.**—(1) Mae rheoliad 4A (dyletswydd ar weithredwyr labordai diagnostig i hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru am brofion SARS-CoV-2 neu firws y ffliw a brosesir) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), ar ôl “SARS-CoV-2” mewnosoder “, ac eithrio prawf y mae rheoliad 4AB yn gymwys mewn perthynas ag ef,”.

(3) Ym mharagraff (3)(a), ar ôl “SARS-CoV-2” mewnosoder “, ac eithrio prawf y mae rheoliad 4AB yn gymwys mewn perthynas ag ef,”.

## Mewnosod rheoliad 4AB

(4) Ar ôl rheoliad 4A mewnosoder—

### “Dyletswydd i hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru am ganlyniadau profion dyfais llif unffordd a gymerir gan deithwyr cymwys

**4AB.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo darparwr prawf yn gweinyddu neu'n darparu prawf ar gyfer canfod SARS-CoV-2 yn unol â rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) (profion dyfais llif unffordd) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(2) Rhaid i'r darparwr prawf hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru am ganlyniad y prawf yn unol â pharagraffau (3) i (5).

(3) Rhaid darparu hysbysiad mewn ysgrifen—

- (a) pan weinyddodd y darparwr prawf y prawf, o fewn 24 awr i benderfynu ar ganlyniad y prawf;
- (b) pan na weinyddodd y darparwr prawf y prawf, o fewn 24 awr i gael yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu gan baragraff 1A(b) o Atodlen 1C i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(4) Rhaid i hysbysiad gynnwys yr wybodaeth ganlynol, i'r graddau y mae'n hysbys i'r darparwr prawf—

- (a) mewn perthynas â'r person a gymerodd y prawf (“P”)—
  - (i) ei enw cyntaf;
  - (ii) ei gyfenw;
  - (iii) ei ryw;
  - (iv) ei ddyddiad geni;
  - (v) ei rif GIG;
  - (vi) ei ethnigrwydd;

## Amendments to regulation 4A

**14.**—(1) Regulation 4A (duty on the operators of diagnostic laboratories to notify Public Health Wales of SARS-CoV-2 or influenza virus tests processed) is amended as follows.

(2) In paragraph (1), after “SARS-CoV-2” insert “, other than a test in relation to which regulation 4AB applies,”.

(3) In paragraph (3)(a), after “SARS-CoV-2” insert “, other than a test in relation to which regulation 4AB applies,”.

## Insertion of regulation 4AB

(4) After regulation 4A insert—

### “Duty to notify Public Health Wales of the results of lateral flow device tests undertaken by eligible travellers

**4AB.**—(1) This regulation applies where a test provider administers or provides a test for the detection of SARS-CoV-2 in accordance with regulation 6AB(2)(a)(ii)(bb) (lateral flow device tests) of the International Travel Regulations.

(2) The test provider must notify Public Health Wales of the result of the test in accordance with paragraphs (3) to (5).

(3) A notification must be provided in writing—

- (a) where the test provider administered the test, within 24 hours of determining the result of the test;
- (b) where the test provider did not administer the test, within 24 hours of receiving the information required to be provided by paragraph 1A(b) of Schedule 1C to the International Travel Regulations.

(4) A notification must include the following information, insofar as it is known to the test provider—

- (a) in relation to the person who undertook the test (“P”), their—
  - (i) first name;
  - (ii) surname;
  - (iii) sex;
  - (iv) date of birth;
  - (v) NHS number;
  - (vi) ethnicity;

- (vii) ei gyfeiriad cartref (gan gynnwys y cod post);
  - (viii) y cyfeiriad a ddarperir i'r darparwr prawf fel y man lle y gall P gael prawf cadarnhau;
  - (ix) ei rif teleffon a'i gyfeiriad e-bost, pan fo canlyniad y prawf yn bositif neu'n amhenodol;
- (b) pa un a yw P wedi cael brechlyn yn erbyn SARS-CoV-2 ai peidio;
  - (c) rhif pasbort P neu rif dogfen deithio P (fel y bo'n briodol);
  - (d) rhif coets, rhif hediad, neu enw llestr y cludiant y cyrhaeddodd P Gymru arno;
  - (e) cyfeirnod y prawf a roddwyd i P yn unol â rheoliad 6AB(6) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
  - (f) y wlad neu'r diriogaeth yr oedd P yn teithio ohoni pan gyrhaeddodd P Gymru, ac unrhyw wlad neu diriogaeth y tramwyodd drwyddi fel rhan o'r daith honno;
  - (g) y dyddiad y cymerodd P y prawf;
  - (h) cadarnhad bod y prawf yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n gymwys o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'i fod wedi ei gymryd yn unol â hwy;
  - (i) cadarnhad bod y prawf yn brawf dyfais llif unffordd a gymerwyd gan deithiwr rheoliad 2A o fewn ystyr y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
  - (j) pan na weinyddodd y darparwr prawf y prawf, y dyddiad a'r amser y cafodd y darparwr prawf yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu gan baragraff 1A(b) o Atodlen 1C i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
  - (k) yr wybodaeth ganlynol ynghylch y prawf—
    - (i) enw'r darparwr prawf a disgrifiad o'i weithrediadau;
    - (ii) rhif y sbesimen;
    - (iii) y math o sbesimen;
    - (iv) dyddiad y sbesimen;
    - (v) y dull profi;
    - (vi) y canlyniad;
    - (vii) y dyddiad y cynhaliwyd y prawf;
- (vii) home address (including postcode);
  - (viii) address provided to the test provider as the place where P is able to receive a confirmatory test;
  - (ix) telephone number and email address, where the test result is positive or indeterminate;
- (b) whether or not P has received a vaccine against SARS-CoV-2;
  - (c) P's passport number or travel document number (as appropriate);
  - (d) the coach number, flight number, or vessel name of the conveyance on which P arrived in Wales;
  - (e) the test reference number given to P in accordance with regulation 6AB(6) of the International Travel Regulations;
  - (f) the country or territory P was travelling from when P arrived in Wales, and any country or territory they transited through as part of that journey;
  - (g) the date on which P undertook the test;
  - (h) confirmation that the test complies, and was undertaken in accordance with, the requirements applicable under the International Travel Regulations;
  - (i) confirmation that the test is a lateral flow device test undertaken by a regulation 2A traveller within the meaning of the International Travel Regulations;
  - (j) where the test provider did not administer the test, the date and time that the test provider received the information required to be provided by paragraph 1A(b) of Schedule 1C to the International Travel Regulations;
  - (k) the following information about the test—
    - (i) the name of the test provider and a description of its operations;
    - (ii) the specimen number;
    - (iii) the specimen type;
    - (iv) the specimen date;
    - (v) the test method;
    - (vi) the result;
    - (vii) the date on which the test was carried out;



(viii) enw gweithgynhyrchydd y cyfarpar profi.

(5) Pan fo P yn blentyn, neu'n berson sydd ag anabledd sy'n analluog am y rheswm hwnnw i ddarparu'r wybodaeth a nodir ym mharagraff (4)(a) i'r darparwr prawf, rhaid i'r darparwr prawf ddarparu i Iechyd Cyhoeddus Cymru, i'r graddau y mae'n hysbys i'r darparwr prawf—

(a) yr wybodaeth a nodir ym mharagraff (4)(a)(i) i (viii) mewn perthynas â P, ar ôl ei chael oddi wrth riant, gwarcheidwad neu ofalwr priodol i P (“X”); a

(b) pan fo canlyniad y prawf yn bositif neu'n amhenodol, rhif teleffon a chyfeiriad e-bost X.

(6) Mae'n dramgwydd i ddarparwr prawf fethu â chydymffurfio â'r rheoliad hwn heb esgus rhesymol.

(7) Mae darparwr prawf sy'n cyflawni tramgwydd o dan y rheoliad hwn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy.

(8) Yn y rheoliad hwn, mae i “anabledd”, “gofalwr”, “gwarcheidwad”, “Iechyd Cyhoeddus Cymru”, “plentyn”, “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” a “rhiant” yr ystyron a roddir yn rheoliad 4A.”

#### Diwygiadau i reoliad 5

**15.**—(1) Mae rheoliad 5 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r swyddog priodol neu Iechyd Cyhoeddus Cymru) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), ar ôl “4A,” mewnosoder “4AB,”.

(3) Ym mharagraff (2A), ar ôl “4A(3),” mewnosoder “4AB(4),”.

#### Diwygiad i reoliad 7

**16.** Yn rheoliad 7(1)(a) (cyfathrebiadau electronig), ar ôl “4A(1),” mewnosoder “4AB,”.

(viii) the name of the testing equipment manufacturer.

(5) Where P is a child, or a person with a disability who is unable for that reason to provide the information set out in paragraph (4)(a) to the test provider, the test provider must provide Public Health Wales with, insofar as it is known to the test provider—

(a) the information set out in paragraph (4)(a)(i) to (viii) in relation to P, having obtained it from an appropriate parent, guardian or carer of P (“X”); and

(b) where the test result is positive or indeterminate, X's telephone number and email address.

(6) It is an offence for a test provider to fail without reasonable excuse to comply with this regulation.

(7) A test provider that commits an offence under this regulation is liable on summary conviction to a fine.

(8) In this regulation, “carer”, “child”, “disability”, “guardian”, “International Travel Regulations”, “parent” and “Public Health Wales” have the meanings given in regulation 4A.”

#### Amendments to regulation 5

**15.**—(1) Regulation 5 (duty to provide information to the proper officer or Public Health Wales) is amended as follows.

(2) In paragraph (1), after “4A,” insert “4AB,”.

(3) In paragraph (2A), after “4A(3),” insert “4AB(4),”.

#### Amendment to regulation 7

**16.** In regulation 7(1)(a) (electronic communications), after “4A(1),” insert “4AB,”.

## RHAN 4

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

#### **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020**

17. Yn lle rheoliad 3A(4)(a) (darparu gwybodaeth cyn i daith ymadael) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020(1) rhodder—

- “(a) pan ddarperir yr wybodaeth drwy neges destun neu hysbysiad gwrthio, testun sydd—
- (i) yn hysbysu P am y gofyniad i ddarparu gwybodaeth,
  - (ii) yn hysbysu P bod cosbau yn gymwys am fethu â chydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth,
  - (iii) yn cynnwys dolen i <https://www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk>,
  - (iv) yn hysbysu P am y gofyniad i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol yn unol â rheoliad 6A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a
  - (v) yn hysbysu P am y gofyniad i drefnu profion cyn cyrraedd Cymru yn unol â rheoliad 6AB o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;”.

## PART 4

### Amendment of the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020

#### **Amendment of the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020**

17. For regulation 3A(4)(a) (provision of information prior to departure) of the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020(1) substitute—

- “(a) where the information is provided by text message or push notification, text which—
- (i) informs P of the requirement to provide information,
  - (ii) informs P that penalties apply for failure to comply with the requirement to provide information,
  - (iii) includes a link to <https://www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk>,
  - (iv) informs P of the requirement to possess notification of a negative test result in accordance with regulation 6A of the International Travel Regulations, and
  - (v) informs P of the requirement to arrange tests before arriving in Wales in accordance with regulation 6AB of the International Travel Regulations;”.

---

(1) O.S. 2020/595 (Cy. 136), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/1118 (Cy. 253), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/171 (Cy. 39), O.S. 2021/457 (Cy. 145), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/863 (Cy. 202) ac O.S. 2021/1109 (Cy. 265).

---

(1) S.I. 2020/595 (W. 136), amended by S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/1118 (W. 253), S.I. 2020/1521 (W. 325), S.I. 2021/72 (W. 18), S.I. 2021/171 (W. 39), S.I. 2021/457 (W. 145), S.I. 2021/584 (W. 161), S.I. 2021/646 (W. 166), S.I. 2021/765 (W. 187), S.I. 2021/863 (W. 202) and S.I. 2021/1109 (W. 265).

## RHAN 5

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

#### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

18. Yn rheoliad 16A(12) (mesurau penodol sy'n gymwys i fangroedd lle y darperir cerddoriaeth ar gyfer dawnsio neu lle y cynhelir digwyddiadau penodedig) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Angola”  
“Anguilla”  
“Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus”  
“Yr Ariannin”  
“Armenia”  
“Azerbaijan”  
“Belize”  
“Bermuda”  
“Botswana”  
“Cambodia”  
“Costa Rica”  
“De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De”  
“Djibouti”  
“Eswatini”  
“Gibraltar”  
“Guernsey”  
“Guyana”  
“Honduras”  
“Jersey”  
“Lesotho”  
“Libanus”  
“Madagascar”  
“Mauritius”

---

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172), O.S. 2021/722 (Cy. 183), O.S. 2021/862 (Cy. 201), O.S. 2021/925 (Cy. 210), O.S. 2021/970 (Cy. 228), O.S. 2021/1119 (Cy. 271) ac O.S. 2021/1131 (Cy. 274).

## PART 5

### Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

#### Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

18. In regulation 16A(12) (specific measures applicable to premises where music is provided for dancing or at which specified events are held) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020(1), at the appropriate places insert—

“Angola”  
“Anguilla”  
“Argentina”  
“Armenia”  
“Azerbaijan”  
“Belize”  
“Bermuda”  
“Botswana”  
“British Antarctic Territory”  
“British Indian Ocean Territory”  
“British Virgin Islands”  
“Cambodia”  
“Cayman Islands”  
“Costa Rica”  
“Djibouti”  
“Eswatini”  
“Falkland Islands”  
“Gibraltar”  
“Guernsey”  
“Guyana”  
“Honduras”  
“Isle of Man”  
“Jersey”  
“Lebanon”

---

(1) S.I. 2020/1609 (W. 335) amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/1623 (W. 340), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/103 (W. 28), S.I. 2021/172 (W. 40), S.I. 2021/210 (W. 52), S.I. 2021/307 (W. 79), S.I. 2021/413 (W. 133), S.I. 2021/502 (W. 150), S.I. 2021/542 (W. 154), S.I. 2021/583 (W. 160), S.I. 2021/668 (W. 169), S.I. 2021/686 (W. 172), S.I. 2021/722 (W. 183), S.I. 2021/862 (W. 201), S.I. 2021/925 (W. 210), S.I. 2021/970 (W. 228), S.I. 2021/1119 (W. 271) and S.I. 2021/1131 (W. 274).

“Mongolia”  
“Montserrat”  
“Nepal”  
“Panama”  
“Periw”  
“Rwanda”  
“Seychelles”  
“Sierra Leone”  
“Sri Lanka”  
“St Helena, Ascension a Tristan da Cunha”  
“Suriname”  
“Tanzania”  
“Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig”  
“Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India”  
“Tiriogaethau Meddianedig Palesteina”  
“Trinidad a Tobago”  
“Tunisia”  
“Uganda”  
“Uruguay”  
“Ynys Manaw”  
“Ynysoedd Cayman”  
“Ynysoedd Falkland”  
“Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno”  
“Ynysoedd Prydeinig y Wryf”  
“Ynysoedd Turks a Caicos”.

“Lesotho”  
“Madagascar”  
“Mauritius”  
“Mongolia”  
“Montserrat”  
“Nepal”  
“Occupied Palestinian Territories”  
“Panama”  
“Pitcairn, Henderson, Ducie and Oeno Islands”  
“Saint Helena, Ascension and Tristan da Cunha”  
“South Georgia and the South Sandwich Islands”  
“The Sovereign Base Areas of Akrotiri and Dhekelia in the Island of Cyprus”  
“Turks and Caicos Islands”  
“Peru”  
“Rwanda”  
“Seychelles”  
“Sierra Leone”  
“Sri Lanka”  
“Suriname”  
“Tanzania”  
“Trinidad and Tobago”  
“Tunisia”  
“Uganda”  
“Uruguay”.

*Eluned Morgan*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru  
Am 4.25 p.m. ar 29 Hydref 2021

©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers  
At 4.25 p.m. on 29 October 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/1212>

ISBN 978-0-348-39150-3



9 780348 391503